

CANOL DINAS ABERTAW **GWASANAETH GOSODIADAU HYRWYDDOL A** **DIGWYDDIADAU**



GWYBODAETH AM Y GWASANAETH AC **AMODAU A THELERAU DEFNYDD**

Mae'r holl drefniadau yn amodol ar argaeledd a chydymffurfiad â'r Amodau a'r Telerau Defnydd canlynol. Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi darllen a deall yr amodau hyn a'ch bod yn cytuno â hwy.

1. NOD Y GWASANAETH

Mae llawer o wahanol fathau o weithgareddau a gynhelir yng nghanol y ddinas bob dydd. Nod Gosodiadau Hyrwyddol a Digwyddiadau Canol y Ddinas yw galluogi unigolion a sefydliadau i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau hyrwyddol cyfreithlon yng nghanol y ddinas mewn amgylchedd a reoleiddir er mwyn osgoi peri tagfeydd, amharu ar ddiogelwch neu fynediad cerddwyr, rhwystro mynediad cerbydau brys neu effeithio'n andwyol ar fusnesau lleol drwy greu sŵn, mygdarth, sbwriel neu beri aflonyddwch.

Mae dwy agwedd ar y gwasanaeth. Mae 'Gosodiadau Strwythurol' yn rheoleiddio lle y gosodir strwythurau ar y briffordd ac mae'r 'Gosodiadau Canfasio' yn rheoleiddio'r rheiny nad ydynt yn dymuno defnyddio strwythur, e.e. dosbarthwyr taflenni, ymchwilwyr marchnad, codwyr arian debyd uniongyrchol etc. Mae'r ddau yn cynnwys proses ymgeisio, dynodi safleoedd penodol a chyflwyno trwyddedau.

Rheolir y gwasanaeth gan Reolaeth Canol y Ddinas sy'n rhan o Ddinas a Sir Abertawe a rhoddyd yr amodau a'r telerau canlynol ar waith er mwyn llywodraethu'r ffordd y caiff y Gwasanaeth Gosodiadau ei reoleiddio a'i weinyddu. Mae Ceidwaid Canol y Ddinas yn goruchwyllo hyn ar y safle.

2. GWEINYDDU'R GWASANAETH

A. Safleoedd Gosod Dynodedig

- i. Mae sawl safle wedi cael ei ddynodi ar gyfer gosodiadau - gweler y tabl a'r map lleoliadau atodedig.
- ii. Caniateir i ddefnyddwyr ddefnyddio'r safleoedd a restrir ar y diwrnodau a glustnodir yn ôl eu trwydded yn unig.
- iii. Gall defnyddwyr hefyd gyflwyno cais i ddefnyddio safleoedd sydd heb eu dynodi yng nghanol y ddinas. Caiff y rhain eu hasesu am eu priodoldeb fesul cais a fydd yn cynnwys, ymysg pethau eraill, asesiad o fynediad a diogelwch.
- iv. Ystyrir mai cyfrifoldeb y perchennog yw unrhyw strwythur neu gyfarpar a ddefnyddir yng nghanol y ddinas ac fe'i hystyrir yn eiddo'r cwsmer.
- v. Mae Dinas a Sir Abertawe'n cadw'r hawl i osod cyfyngiadau ar osodiadau.

B. Cadw Safleoedd

Y cyntaf i'r felin gaiff gadw lle a gwneir hynny yn unol â'r meini prawf canlynol:

- i. Gofynnir i ymgeiswyr roi cymaint o rybudd â phosib os ydynt yn bwriadu cadw lle er mwyn gallu prosesu'r cais. Mae'n rhaid cael o leiaf **2 wythnos** o rybudd cyn y dyddiad(au) gofynnol cyntaf.
- ii. Pan fyddwch yn cadw lle ar sawl safle dros sawl mis, cyflwynir ffurflen gais bob mis oni chynghorir yn wahanol.
- iii. Pan fyddwch yn cadw lle ar ddyddiadau amrywiol gyda'i gilydd, ystyrir hyn yn 6 dyddiad gwahanol a gynhelir o fewn cyfnod o 4 mis.

- iv. Gellir cadw lle ar y safleoedd o ddydd Llun i ddydd Sul, fodd bynnag, gall cyfyngiadau fod yn berthnasol gan ddibynnu ar fasnachu Gŵyl y Banc e.e. ar 25 Rhagfyr a Sul y Pasg.
- v. Gellir gosod cyfyngiadau cadw lle ychwanegol ar y safleoedd gan ddibynnu ar alw, adnoddau a mathau eraill o weithgareddau e.e. digwyddiadau mawr, gwaith ffordd a chynnal a chadw, gosod siopau etc.
- vi. Caniateir i rai sy'n codi arian (gan gynnwys casgliadau debyd uniongyrchol) ac elusennau ddefnyddio 2 safle'r dydd gyda mwyafrif o ddeuddydd yr wythnos.
- vii. Ni chaiff mwy na dau sefydliad codi arian weithredu ar yr un diwrnod.
- viii. Caniateir dau ganfasiwr ar bob Safle Canfasio. Mae hyn yn eithrio'r Safle Canfasio ym mynedfa Marchnad Abertawe (Safle 5) lle caniateir un canfasiwr yn unig.
- ix. Caniateir pedwar cynrychiolydd ar bob Safle Gosod Strwythurol.
- x. Lle derbynnir sawl cais i gadw lle am yr un dyddiad a'r un safle, blaenoriaethir ymgeisydd os yw'n fusnes canol dinas a/neu os yw'r ymgeisydd yn lleol i ardal Abertawe.

C. Ffioedd a Thaliadau Safleoedd

Lle y bo'n berthnasol, codir ffi am ddefnyddio'r Safleoedd Gosod. Gweler y daflen Ffioedd a Thaliadau. Bydd y meini prawf canlynol yn berthnasol.

- i. Cyfrifir y ffioedd i ddefnyddio'r Safle Canfasio ger mynedfa Marchnad Abertawe (Safle 5) fel 50% o'r gyfradd codi tâl safonol. Mae hyn oherwydd bod y safle'n gyfyngedig i un canfasiwr.
- ii. Adolygir y strwythur prisio yn flynyddol. Gellir cynyddu taliadau'n awtomatig yn unol â chwyddiant a/neu i adlewyrchu newidiadau lleol a rhai eraill.
- iii. Diffinnir sefydliadau 'lleol' fel y rheiny y mae eu pencadlys o fewn ffiniau Ardal Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe.
- iv. Mae busnesau sydd wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas, yn ôl y ffiniau a ddefnyddir gan Reolaeth Canol y Ddinas, yn derbyn gostyngiad 50%.
- v. Gweinyddir taliadau drwy anfoneb gan Reolaeth Canol y Ddinas fel arfer. Derbynnir arian parod a sieciau hefyd (*dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Gosodiadau Hyrwyddol Dinas a Sir Abertawe'*).
- vi. Mae ffi sefydlog am ganiatâd masnachu ar y stryd yn berthnasol yn ogystal â'r ffi osodiadau i'r rheiny sy'n ceisio caniatâd i ddefnyddio canol y ddinas i gynnal digwyddiad sy'n cynnwys sawl stonid arddull marchnad.
- vii. Gan ddibynnu ar amrywiaeth a chymhlethdod y ceisiadau a dderbynnir, mae Rheolaeth Canol y Ddinas yn cadw'r hawl i arfer disgrisiwn o ran y strwythur prisio. Er enghraifft, ar achlysur pan fydd gofynion ychwanegol ar y gwasanaeth e.e. rheoli safle, mynediad y tu allan i oriau etc, gellir cynyddu'r taliadau.
- viii. Rhaid derbyn y taliad am ffi'r safle **cyn** y gosodiad. Bydd yr holl drefniadau cadw lle yn rhai dros dro nes y derbynnir y taliad yn llawn. Os na dderbynnir taliad, caiff y trefniant ei ganslo ar unwaith.
- vix. Os caiff trefniant ei ganslo â llai na dwy wythnos galendr o rybudd, ni roddir ad-daliad. Os rhoddir mwy na phythefnos o rybudd, rhoddir ad-daliad llawn.

vix. Cynigion Arbennig

a) Mae'r cynigion arbennig canlynol ar gael i gwsmeriaid gosodiadau:

- Gostyngiad o 10% os cedwir lle am 6 dyddiad neu fwy.
- Gostyngiad o 50% i fusnesau canol y ddinas.

b) Mae gan fusnesau sydd wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas hawl i'r canlynol:

- 1 trefniant am ddim ar gyfer busnes newydd neu un sydd wedi'i adleoli.
- 1 trefniant am ddim os yw'r busnes yn defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf.
- 1 trefniant am ddim i unrhyw fusnes y mae'r gwaith datblygu sylweddol yng nghanol y ddinas yn effeithio arno.

3. HAWLENNI ERAILL

- A. Mae gan ganolfannau siopa'r Cwadrant a Pharc Tawe berchnogion preifat. I ddefnyddio'r cyfleusterau hyn, ffoniwch 01792 460312 a 01792 653249 yn ôl eu trefn. Sylwer mai hyn a hyn o leoedd sydd ar gael yn y Cwadrant.
- B. Os ydych yn dymuno casglu arian at ddibenion elusennol (ac eithrio codi arian drwy ddebyd uniongyrchol), mae trwydded casglu ar y stryd yn ofynnol. Ni weinyddir y gwasanaeth hwn gan Reolaeth Canol y Ddinas. Ffoniwch Dîm Trwyddedu'r Cyngor ar 01792 635600.
- C. Cynllun clera yw 'Busk til Dawn' a sefydlwyd i annog perfformwyr ac adloniant stryd yng nghanol y ddinas. Holwch Reolaeth Canol y Ddinas os oes gennych ddiddordeb yn hyn.
- CH. Mae masnachu stryd yn amodol ar ganiatâd masnachu ar y stryd a oruchwylir gan Reolaeth Canol y Ddinas. Mae'n rhaid i fasnachwyr stryd unigol gyflwyno cais ar wahân i ddefnyddio'r lleiniau masnachu stryd dynodedig sy'n gweithredu yn ogystal â'r Safleoedd Gosod. Mae'n rhaid cael caniatâd masnachu ar y stryd ar gyfer gosodiadau digwyddiadau sy'n cynnwys stondinau creffttau, marchnad a rhai eraill hefyd. Fodd bynnag, mae hyn yn rhan o'r Cynlluniau Gosodiadau y mae ffioedd a thelerau yn berthnasol iddynt.

4. AWDURDODIAD

Cyflwynir rhif trwydded i ymgeiswyr llwyddiannus. Mae'n rhaid i bob asiant sy'n gweithio ar y safle wybod manylion y drwydded ac mae'n rhaid i Geidwaid Canol y Ddinas gynnal gwiriadau.

5. GWAHARDDIADAU

- A. Ni chaniateir grwpiau/cyfreithwyr sy'n ceisio hawlio am anafiadau mewn damweiniau dan y cynllun hwn. Arweinir hyn gan Ddeddf lawndal 2006.
- B. Mae cwmnïau benthyciadau diwrnod tâl, benthycwyr llog uchel a phrynwyr oportiwnistaidd hefyd wedi'u heithrio dan gyfarwydddeb wrthdlodi'r cyngor.
- C. Mae'r Cynllun Gosodiadau at ddibenion hyrwyddol yn unig. Mae trefniadau cadw lle gan fasnachwyr stryd unigol/y rheiny sy'n dymuno gwerthu nwyddau neu wasanaethau/ derbyn arian ar y stryd yn destun trefniadau eraill. Holwch Reolaeth Canol y Ddinas.
- CH. Mae Rheolaeth Canol y Ddinas yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau gan unrhyw sefydliad neu unigolyn, neu i derfynu caniatâd ar unrhyw adeg, lle teimlir na fyddai ei bresenoldeb yng nghanol y ddinas o fudd i Reolaeth Canol y Ddinas, Dinas a Sir Abertawe a/neu defnyddwyr canol y ddinas.
- D. Yn yr un modd, mae Rheolaeth Canol y Ddinas yn sensitif i anghenion masnachol y busnesau yng nghanol y ddinas a gallai wrthod neu gwtogi cais lle nodir pryderon dilys, er enghraifft, mewn perthynas â honiadau bod gormod o gystadleuaeth.
- DD. Nid yw defnydd blaenorol yn gwarantu caniatâd yn y dyfodol.
- E. Bydd apeliadau i ymgeiswyr dig y mae eu cais wedi cael ei wrthod neu ei derfynu yn cael eu pennu yn y lle cyntaf gan Reolwr Canol y Ddinas. Dylid cyfeirio materion parhaus i Dîm Cwynion Corfforaethol y cyngor.

6. DEFNYDDIO CERBYDAU (yn berthnasol i Osodiadau Strwythurol yn unig)

- A. Gallai Gosodiadau Strwythurol fod yn amodol ar gyfyngiad pwysau. Gwaherddir cerbydau, ôl-gerbydau neu unrhyw eitemau eraill sy'n drymach na 3.5 tonnelli. Mae Ffordd y Dywysoges (Safle B) yn eithriad.
- B. Oherwydd y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a diogelwch siopwyr ar draws canol y ddinas, mae'n rhaid gwneud gwaith gosod erbyn 10am ac mae'n rhaid gweithredu nes o leiaf 4.30pm.
- C. Ni chaniateir symud unrhyw gerbydau o gwbl yn ardal gerddwyr canol y ddinas rhwng **10.30am a 4.00pm**. Caiff y pyst awtomatig eu cloi yn ystod yr oriau hyn.
- CH. Wrth symud cerbydau cyn gosod ac ar ôl dadosod, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol i ddiogelwch cyhoeddus. Rhaid defnyddio goleuadau rhybuddio'r cerbyd ac ni ddylid

teithio'n gyflymach na 5mya ar unrhyw adeg. Yn ddelfrydol, dylid defnyddio cynorthwydd/wyr i gerdded o flaen unrhyw gerbyd sy'n cael ei yrru drwy ganol y ddinas.

- D.** Mae'n rhaid i unrhyw wrthrych, e.e. cerbyd, ôl-gerbyd, stondin, llwyfan, pabell fawr, bwrdd (neu unigolyn) etc. gael ei osod mewn safle fel nad yw'n rhwystro mynedfa unrhyw adeilad neu flaen siop neu'n peri rhwystr i gerddwyr sy'n defnyddio'r ardal.
- Dd.** Mae mynediad i gerbydau i'r safleoedd Gosodiadau Strwythurol ar gael drwy'r man mynediad a nodir gan Reolaeth Canol y Ddinas a Cheidwad Canol y Ddinas. Gwaherddir mynediad drwy unrhyw ffordd arall.
- E.** Ni chaniateir i aelodau'ch sefydliad barcio cerbydau preifat ar y safleoedd gosod neu wrth eu hymyl. Mae'n rhaid symud cerbydau a ddefnyddir at ddibenion halio neu gludo unedau neu gyfarpar hefyd. Holwch am gyngor o ran y maes parcio agosaf.
- F.** Ni chaniateir cadw unrhyw osodiad strwythurol (gan gynnwys cerbydau ac ôl-gerbydau) yng nghanol y ddinas dros nos oni threfnir hyn fel arall.
- Ff.** Mae'n rhaid i bob cerbyd arddangos ddefnyddio hambwrdd diferion i osgoi marciau olew ar y palmant. Bydd y defnyddiwr yn talu i gael gwared ar farciau olew neu danwydd sydd wedi gollwng neu unrhyw ddifrod arall. Cyflwynir anfoneb am unrhyw gostau a geir.

7. IECHYD A DIOGELWCH CYFFREDINOL (*yn berthnasol i Osodiadau Strwythurol yn unig*)

- A.** Mae'n rhaid gorchuddio pob cebl ar y safle ac unrhyw beryglon baglu eraill yn briodol.
- B.** Lle y bo'n briodol, mae'n rhaid i ddiffoddiaduron tân fod ar gael.
- C.** Lle defnyddir generaduron, bydd rhaid iddynt fod yn fecanyddol gadarn gyda thystysgrif gyfredol. Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r generadur gael ei osod mewn man oddi wrth y cyhoedd am resymau diogelwch ac mae'n rhaid i staff sy'n defnyddio'r generadur gael eu hyfforddi'n briodol. Hefyd mae'n rhaid cadw tanwydd y generadur yn ddiogel oddi wrth y cyhoedd a ffynonellau tanio posib. Generaduron tawel iawn yw'r rhai a ffeirir, fodd bynnag, bydd Ceidwaid Canol y Ddinas yn cynghori ar y safle os yw'r lefelau sŵn yn annerbyniol.
- CH.** Mae'n rhaid i bob arddangosfa hyrwyddol fod yn ddiogel, yn daclus ac yn ddeniadol er boddhad Rheolaeth Canol y Ddinas.
- D.** Gan ddibynnu ar gynnwys y gosodiad mae'n bosib y bydd asesiad risg ar wahân yn ofynnol. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn nodi'r risgiau a'r mesurau i'w cymryd i reoli'r risg yn effeithiol fel rhan o'r broses ymgeisio.
- Dd.** Ar gyfer gosodiadau sy'n ymwneud â bwyd a blasu bwyd, bydd y dystysgrif a'r mesurau hylendid bwyd priodol yn ofynnol ymlaen llaw.

8. YMDDYGIAD

- A.** Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am ymddygiad boddhaol unrhyw weithwyr neu bobl eraill sy'n ymwneud â'r gosodiad.
- B.** Ni ddylai aelodau'ch sefydliad beri unrhyw niwsans, rhwystr neu annifyrrwch i unrhyw ddefnyddwyr eraill canol y ddinas. Mae'n rhaid i'ch ymddygiad a'ch ymagwedd fod yn gyfeillgar ac ni dderbynnir techneg gwerthu ymosodol.
- C.** Ni ddylai unigolion rwystro mynedfa unrhyw adeilad neu flaen siop neu beri rhwystr i gerddwyr sy'n defnyddio'r ardal.
- Ch.** Bydd y defnyddiwr yn sicrhau nad yw lefelau sŵn a gynhyrchir gan ei weithgaredd yn peri niwsans i bobl a/neu fusnesau eraill yn yr ardal.
- D.** Gwaherddir defnydd o gorn siarad a/neu seinchwyddwyr oni bai y cytunir ar hyn yn benodol gyda Rheolaeth Canol y Ddinas ymlaen llaw.
- Dd.** Ni chaniateir hysbysebu'r digwyddiad mewn modd anghyfreithlon neu anawdurdodedig (e.e. defnyddio fframiau 'A', posteri neu faneri).
- E.** Gwaherddir smygu, bwyta ac yfed ar y safle ac o'i amgylch.
- F.** Bydd gofyn i ddefnyddwyr wisgo bathodyn adnabod â llun ac enw a chyfeiriad y cwmni ar bob adeg.
- FF.** Bydd y defnyddiwr yn glynu wrth bob rheol a rheoliad rhesymol arall a wneir at ddibenion

rheoli canol dinas Abertawe mewn modd trefnus a'i gynnal a'i gadw fel canolfan fanwerthu proffil uchel.

- G. Gwaherddir defnyddio arddangosiadau sefydlog neu strwythurau eraill ar safleoedd gosod canfasio (ac eithrio safle canfasio 5 lle caniateir arddangosfa fach/strwythur siâp blwch).
- NG. Gwaherddir canfasio i ardal â radiws o 2.5 metr o'r safle canfasio a nodir.
- H. Ni chaiff canfaswyr sefyll ymhellach na 5 metr oddi wrth ei gilydd ar unrhyw adeg.
- I. Ni ddylid cymryd unrhyw arian ar safleoedd gosod oni bai y cytunir ar hyn yn glir ymlaen llaw.
- L. Lle cesglir manylion personol gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod gosod, h.y. ar gyfer casgliadau debyd uniongyrchol, mae'n rhaid i'r holl drefniadau gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

9. ATEBOLRWYDD

- A. Ni fydd unrhyw atebolrwydd o gwbl yn gysylltiedig â Rheolaeth Canol y Ddinas neu Ddinas a Sir Abertawe. Bydd yr ymgeisydd yn gwbl atebol am unrhyw hawliadau yswiriant sy'n codi o ddefnyddio'r safle gosod. Mae'n rhaid cwblhau **Cytundeb Indemniad** cyn defnyddio'r safle ac mae'n rhaid i ddefnyddwyr y Gwasanaeth Gosodiadau Strwythurol ddarparu tystiolaeth o'r Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth o leiaf **bum miliwn** o bunnoedd. Ni chaiff cais ei gadarnhau nes bod y trefniadau hyn yn eu lle.
- B. Bydd y defnyddiwr yn gyfrifol am gost rhesymol atgyweirio'r briffordd, celfi stryd neu eitemau eraill os cânt eu difrodi gan ei osodiad. Cyflwynir anfoneb i'r ymgeisydd am unrhyw ddifrod.
- C. Mae'n rhaid cael gwared ar sbwriel a gynhyrchir gan y gosodiad, e.e. defnydd o samplau a thafleuni, o'r safle'n rheolaidd. Os caiff Dinas a Sir Abertawe gostau glanhau ychwanegol o ganlyniad i'r gosodiad, yna codir tâl priodol ar y defnyddiwr. Gall defnyddwyr gael eu dirwyo hefyd.

10. HAWLIAU GORFODI CANIATÂD/ADLEOLI

- A. Ystyrir pob cais yn ôl ei haeddiant unigol. Gall eithriadau fod yn berthnasol (gweler Adran 5).
- B. Nid yw cyflwyno cais i ddefnyddio'r Gwasanaeth Gosod (gan gynnwys ceisiadau ar-lein) o reidrwydd yn golygu eich bod wedi cadw lle. Caiff trefniadau cadw lle eu cadarnhau pan gaiff y cais ei weinyddu'n llawn a phan gyflwynir Rhif Trwydded yn ffurfiol.
- C. O dan y Côt Arfer Argymelledig ar Gyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru, yn ystod y cyfnod rhwng hysbysiad o etholiad a'r etholiad ei hun bydd cyfyngiadau ar ddefnydd o'r Gwasanaeth Gosod gan ymgeiswyr, gwleidyddion a/neu grwpiau gwleidyddol sy'n rhan o etholiad.
- CH. Mae Rheolaeth Canol y Ddinas, Dinas a Sir Abertawe, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn cadw'r hawl i gael gwared ar ymgeiswyr neu eu symud i rywle arall os bydd angen.
- D. Mae'n bosib y bydd rhaid cael deiliaid caniatâd i gwtogi neu ganslo gosodiad ar y diwrnod petai argyfwng neu ofynion mynediad dilys awdurdodedig na ellir gwneud trefniadau mynediad amgen boddhaol ar eu cyfer. Yn y sefyllfa hon, rhoddir ad-daliad priodol.
- Dd. Terfynir caniatâd ar unwaith os caiff yr amodau a'r telerau defnydd eu torri'n ddifrifol neu lle mae'r gosodiad yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn y cais a gyflwynwyd. Bydd gan Reolaeth Canol y Ddinas ddisgresiwn llwyr o ran pennu'r hyn sy'n cyfrif fel torri'r amodau a'r telerau'n ddifrifol. Ar ôl terfynu'r gosodiad, bydd rhaid gadael y safle ar unwaith.
- E. Gwaherddir is-osod safleoedd.
- F. Cymerir camau gweithredu gorfodi priodol yn erbyn unrhyw sefydliad neu unigolion sy'n defnyddio canol y ddinas heb awdurdod priodol neu pan gaiff yr amodau a'r telerau eu torri. Cymerir mesurau o dan **Ddeddf Prifffyrdd, 1980** a'r is-ddeddf leol **'At Ddibenion**

Rheoli a Llywodraethu Bwrdeistref Sirol Abertawe yn Dda i Atal a Rhoi Terfyn ar Niwsans' (1907). Mewn perthynas â 'thowtio' noda'r is-ddeddf leol:

"Ni ddylai unrhyw berson mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus at ddibenion gwerthu neu hysbysebu unrhyw eitem neu geisio busnes dwtio neu boeni pobl gan beri niwsans iddynt neu eu rhwystro"

11. GWYBODAETH ATEGOL A DOGFENNAU AMGAEEDIG

- Ffurflen Gais
- Tabl o Safleoedd Gosod Dynodedig
- Map Lleoliadau Safleoedd Gosod
- Ffioedd Gosod ac Atodlen Taliadau

I gadw lle ar-lein, ewch i:

www.abertawe.gov.uk/gosodiadauhyrwyddolcanolyddinas

Rheolaeth Canol y Ddinas Abertawe

Canolfan Ddinesig, Ystafell 2.6.3, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN
Rhif ffôn 01792 633095 E-bost citycentremangement@swansea.gov.uk
www.canolyddinasabertawe.com

Dewch o hyd i ni ar Facebook: www.facebook.com/swansea-citycentre
Dilynwch ni ar Twitter: www.twitter.com/swansea-centre